Heddlu Police
DYFED-POWYS

Adroddiad laith Blynyddol

2019 – 2020

Cyflwyniad

Fel heddlu, rydym wedi croesawu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn y cymunedau yr ydym yn gwasanaethu ynddynt, ac yn parhau i wneud. Mae'n hollbwysig fod aelodau o'r cyhoedd yn medru cael mynediad i'n gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg o ddydd i ddydd. Rydym yn helpu'r holl swyddogion ac aelodau staff cymaint ag y medrwn i wneud yn siŵr bod cymorth yn cael ei dderbyn yn hawdd er mwyn sicrhau ein bod ni'n medru darparu gwasanaeth o safon uchel i bob cymuned yn Nyfed-Powys.

Mae Safonau'r Gymraeg, a gafodd eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wedi eu gweithredu gan Heddlu Dyfed-Powys ers 30 Mawrth 2017. Fe'u crëwyd er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae dwy iaith yn cael eu hadnabod yn gyfreithiol yng Nghymru, ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn ein darpariaeth gwasanaeth: **Dwy Iaith - Dau Ddewis!**

Crëwyd yr adroddiad blynyddol hwn er mwyn crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud o ganlyniad i weithredu Safonau'r Gymraeg. Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Heddlu Dyfed-Powys ac ym mhob derbynfa sydd ar agor i'r cyhoedd.

Cynnwys

1. **Cyflawniadau……..... 4**
2. **Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg……..…… 7**
3. **Cyrsiau Cymraeg……..…….....….. 8**
4. **Swyddi Gwag…….…….…….... 10**
5. **Gallu Swyddogion a Staff o ran y Gymraeg …….……..11**
6. **Cyrsiau Hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ……..……12**
7. **Anfodlonrwydd …..……12**

1. Cyflawniadau

Mawrth Mawr

O ganlyniad i'r holl waith a gyflawnwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, bellach, mae'r heddlu'n gwbl ymwybodol o'i ofynion o dan Safonau'r Gymraeg. Eleni, penderfynom ddathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy ymgyrch allanol drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol er mwyn tynnu sylw at yr aelodau staff a'r swyddogion hynny sy'n dysgu'r iaith er mwyn darparu'r gwasanaeth dwyieithog gorau i'n cymunedau.

Y Cynllun Mentora

Ail-lansiwyd y Cynllun Mentora ar Ddydd Gŵyl Dewi. Cynllun mewnol ydyw i gefnogi swyddogion a staff yr heddlu i fagu hyder wrth siarad Cymraeg. Mae'n paru siaradwr Cymraeg hyderus â dysgwr neu siaradwr llai hyderus. Maent yn cynnal sesiynau rheolaidd ac yn cadw cofnod o'r cynnydd, ac yn adrodd yn ôl wrth y Swyddog Iaith. Ailddosbarthwyd y cynllun hefyd pan oedd cyfyngiadau symud oherwydd COVID-19 hefyd er mwyn annog staff i gysylltu â'i gilydd a chefnogi ei gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod amserau anodd.

Dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol

Mae'n bwysig i weithlu Heddlu Dyfed-Powys gynrychioli'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Fel heddlu, rydyn ni'n falch iawn o'n hunaniaeth Gymreig, ac eisiau annog swyddogion a staff i gefnogi'n holl breswylwyr. Credwn ei fod yn bwysig iawn i'n swyddogion a'n staff ddangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg i'n preswylwyr ac i'w gilydd. Er mwyn sicrhau hyn, mae'r heddlu wedi ymrwymo i gael gweithlu lle mae pawb yn siarad Cymraeg hyd lefel 1 o leiaf.

I'n helpu i gyflawni hyn, ers mis Ebrill 2019, mae pob proffil rôl newydd ar gyfer

swyddogion a staff yn dweud bod yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gyfathrebu yn Gymraeg hyd lefel 1 o leiaf, neu fod yn barod i gyflawni hyn o fewn 6 mis ar ôl cael eu penodi.

Bydd swyddogion a staff sydd eisoes yn cael eu cyflogi gennym ac sydd heb unrhyw allu o ran y Gymraeg yn cael eu cefnogi i gyrraedd lefel 1 dros gyfnod o 12 mis. Os nad yw unigolyn yn bodloni'r gofyniad, bydd yn symud drwy gamau perfformiad ffurfiol. Blwyddyn ers cyflwyno'r gofyniad hwn, mae'r ffigurau'n dangos bod nifer y swyddogion ac aelodau staff sydd heb unrhyw allu yn y Gymraeg ar ei isaf, ac ar hyn o bryd, mae'r nifer sydd â gallu Lefel 1-5 yn y Gymraeg yn uwch nag ydoedd cyn i'r gofyniad ddod i rym.

Cefnogi ffyrdd amrywiol o ddysgu
Mae'r heddlu'n cydnabod bod pobl yn dysgu drwy ffyrdd gwahanol ac ar gyflymderau gwahanol, felly rydyn ni wedi trefnu nifer o ffyrdd gwahanol ar gyfer helpu pobl i ddysgu a chyrraedd y safon hon. Mae'r rhain yn cynnwys trefnu cyrsiau mewnol, galluogi swyddogion a staff i ddysgu drwy gyrsiau ar-lein, a chefnogi'r rhai sydd eisiau cymryd rhan mewn cyrsiau o fewn eu cymunedau.

Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
Yn ystod digwyddiadau cynefino, mae swyddogion a staff newydd yn derbyn cyflwyniad i godi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Yn y cyflwyniad hwn, maen nhw'n cael hanes byr am ddiwylliant Cymru, llinell amser yr iaith Gymraeg a gwybodaeth am yr adnoddau cymorth sydd ar gael. Hefyd, rhoddir ffigurau mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, a sut y byddwn yn darparu gwasanaeth o'r safon uchaf i'n cymunedau drwy gyfathrebu yn eu dewis iaith, gan dynnu sylw at y ffaith bod hyn yn ofyniad cyfreithiol. Mae'r tabl isod yn dangos y cyflwyniadau a ddarparwyd o Ebrill 2019 a Mawrth 2020:

Teitl y Digwyddiad	Dyddiad y Digwyddiad
Mewnbwn ar gyfer SCCH	Ebrill 2019
Mewnbwn ar gyfer Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu	Mai 2019
Mewnbwn Ymwybyddiaeth ar gyfer Trosglwyddedigion	Tachwedd 2019
Mewnbwn ar gyfer SCCH	Chwefror 2020

Adnoddau er mwyn helpu swyddogion a staff

Rhoddir adnoddau i swyddogion a staff yn ystod cyflwyniadau i'w cynorthwyo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r adnoddau'n cynnwys llyfryn manwl sy'n rhoi eglurhad pellach ynglŷn â'r Safonau. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys disgrifiadau manwl o'r Safonau, ynghyd â thempledi defnyddiol er mwyn cynorthwyo swyddogion a staff â hysbysiadau 'allan o'r swyddfa', llofnodion e-bost ac ati. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod ein hadnodd 'rhestr wirio pen desg' ar gael i bawb. Mae'r adnodd bach defnyddiol hwn yn ganllaw sydyn sy'n cynnwys yr holl dempledi sydd eu hangen o ganlyniad i Safonau'r Gymraeg, manylion ynghylch sut i ddefnyddio'r Uned Gyfieithu, pethau i'w hystyried wrth drefnu cyfarfod, ateb galwad ffôn ac ati. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod gan bawb fathodyn "dwi'n dysgu/siarad Cymraeg" mewn man amlwg ar eu lifrai.

Mae'r holl adnoddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gael ar ddyfeisiau llaw swyddogion ac ar fewnrwyd yr heddlu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan yr holl swyddogion ac aelodau staff fynediad i'r adnoddau bob amser. Crëwyd adnodd ychwanegol yn arbennig ar gyfer y fewnrwyd, sef 'map geiriau'. Rhestr o eiriau, enwau a thermau, o deitlau rhengoedd i deitlau lleoliadau, a chwestiynau cyffredin, yw'r 'map geiriau'. Rydym hefyd wedi atodi ffeil sain i'r geiriau er mwyn helpu staff sydd ddim yn siarad Cymraeg i ymarfer ynganu'r geiriau.

Y Strategaeth Iaith

Mae'r Strategaeth Iaith yn ddogfen ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Nod y strategaeth yw sicrhau ein bod ni'n datblygu gweithlu sy'n cynrychioli'n cymunedau drwy weithredoedd gwahanol. Mae'n gosod amserlen glir a chynllun inni fod yn atebol iddo.

Mae'r strategaeth yn cael ei monitro yn ystod cyfarfodydd 'Yr Iaith Ar Waith', sy'n cael eu cynnal ar sail chwarterol. Mae copi o'n Strategaeth Iaith ar gael i'w darllen ar wefan Heddlu Dyfed-Powys.

Gwobrau'r Heddlu

Mae Seremoni Wobrwyo Heddlu Dyfed-Powys yn gyfle i ddathlu staff, swyddogion a gwirfoddolwyr yr heddlu. Oherwydd y pandemig coronafeirws, gohiriwyd gwobrau 2019-20, fodd bynnag, bydd y wobr 'Dysgwr y Flwyddyn' dal yn ffurfio rhan o seremoni wobrwyo'r heddlu unwaith y bydd yn cael ei haildrefnu.

2. Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg

Mae'r heddlu wedi derbyn pob cyfle i fynd i ddigwyddiadau a drefnwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn gwella ein gwasanaethau:

Grŵp Trafod

Ym mis Gorffennaf 2019, cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg grŵp trafod ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys i dderbyn adborth gan weithwyr Heddlu Dyfed-Powys o ran sut y mae Safonau'r Gymraeg wedi'u gweithredu. Roedd cynrychiolwyr o rolau, adrannau a rhengoedd amrywiol yn bresennol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r heddlu wedi'i chynrychioli.

Ymweliad Comisiynydd y Gymraeg

Ymwelodd Comisiynydd y Gymraeg â Phencadlys Heddlu Dyfed-Powys ym mis Awst 2019 er mwyn trafod sut mae'r Safonau wedi'u gweithredu. Ynghyd â SCHTh, cawsom gyfle i dynnu sylw at unrhyw broblemau neu arfer da.

Cyfarfod adborth blynyddol Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Cynhaliwyd ein cyfarfod adborth blynyddol gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys ym mis Tachwedd 2019. Roedd hwn yn gyfle i drafod arfer da a gofyn am gyfarwyddyd ar gyfer unrhyw broblemau a allai fod gennym.

Diwrnod Hawliau'r Gymraeg

Er mwyn dathlu Diwrnod Hawliau'r Gymraeg ar 6 Rhagfyr, trefnwyd ymgyrch allanol drwy ein platfformau cyfryngau cymdeithasol. Yr oedd yn cynnwys fideo o'r Prif Gwnstabl Mark Collins yn pwysleisio pwysigrwydd y Gymraeg yn ein hardal ac yn atgoffa'n cymunedau ein bod yn cynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog.

3. Cyrsiau Cymraeg

Yn 2017, cyhoeddodd yr heddlu ei Bolisi Gwersi Cymraeg newydd, sy'n nodi ymrwymiad yr heddlu i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd ar gyfer dysgu Cymraeg. Yn y polisi hwn, ceir manylion am y cymorth sydd ar gael i swyddogion a staff ar gyfer dysgu Cymraeg a gwella eu sgiliau ieithyddol.

Mae'r heddlu wedi parhau i sicrhau bod gwersi Cymraeg yn cael eu cyflwyno a'u cefnogi. Yn ystod 2019-2020, trefnwyd cwrs ar gyfer dechreuwyr i swyddogion a staff.

Eleni eto, mae'r heddlu wedi cydweithio â Dysgu Cymraeg - darparwyr cwrs preswyl Nant Gwrtheyrn. Cyflwynasant gwrs yn arbennig ar gyfer staff a swyddogion Heddlu

Dyfed-Powys, gan ganolbwyntio ar weithdai cyflwyno, e-bostio, cyfweld a llawer mwy. Rhoddwyd cyfle i staff a swyddogion ymarfer y rhain a'r tasgau beunyddiol eraill y maent yn awr yn eu cyflawni yn Gymraeg er mwyn cefnogi Safonau'r Gymraeg.

Yn anffodus, oherwydd y pandemig coronafeirws, nid oedd modd inni drefnu cwrs Cymraeg yr heddlu eleni, fodd bynnag, yr ydym yn archwilio i'r posibilrwydd o gynnal cyrsiau ar-lein gyda chefnogaeth y tiwtor er mwyn cynyddu hyder a gwella gallu unigolion o ran defnyddio'r iaith.

Yn ogystal â hyn, mae'r heddlu wedi rhoi cyfle i staff a swyddogion fynychu cyrsiau Cymraeg yn eu cymunedau os na fydd modd iddynt fynd i gyrsiau a gynhelir gan yr heddlu yn y Pencadlys am wahanol resymau, h.y. materion trafnidiaeth / patrymau sifft.

Cyrsiau Cymraeg

1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020

Cyrsiau	Y nifer a oedd yn bresennol
Cwrs Dechreuwyr yr Heddlu	10
Dysgu Cymraeg - Nant Gwrtheyrn	11
Gwersi Cymunedol	12
Cwrs Ar-lein	53
Cyfanswm	**86**

4. Swyddi Gwag

1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020

Categori	Nifer y swyddi gwag
Roedd y Gymraeg yn hanfodol	14
Roedd y Gymraeg yn ddymunol	0
Roedd angen dysgu Cymraeg ar ôl cael eu penodi i'r swydd	146
Nid oedd y Gymraeg yn ofynnol	0

Categori	Nifer y swyddi gwag
Cymraeg Lefel 1	146
Cymraeg Lefel 2	0
Cymraeg Lefel 3	4
Cymraeg Lefel 4	9
Cymraeg Lefel 5	1
Nid oedd y Gymraeg yn Ofynnol	0

Ers 1 Ebrill 2019, does dim un rôl lle nad yw'r Gymraeg yn ofynnol gan fod angen Cymraeg Lefel 1 o leiaf ar gyfer pob proffil rôl, neu mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn barod i gyflawni hyn o fewn 6 mis ar ôl cael ei benodi.

5. Gallu Swyddogion a Staff o ran y Gymraeg

Lefel	Mai 2016 Darllen a Deall	Mai 2017 Darllen a Deall	Mai 2018 Darllen a Deall	Mehefin 2019 Darllen a Deall	Mai 2016 Darllen a Deall	Mai 2020 Darllen a Deall
Lefel 0	355	352	322	284	277	256
Lefel 1	449	537	557	603	600	630
Lefel 2	414	425	400	407	406	395
Lefel 3	204	233	236	242	240	250
Lefel 4	163	203	191	194	191	195
Lefel 5	271	276	253	241	240	244
Heb ddatgan	122	285	112	88	92	94
Cyfanswm	**1978**	**2311**	**2071**	**2059**	**2046**	**2064**

Fel y dangosir gan y data uchod, mae nifer y swyddogion ac aelodau staff sydd heb unrhyw allu o ran y Gymraeg wedi gostwng o ganlyniad i gynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i unigolion fynychu cyrsiau Cymraeg a gynhelir gan yr heddlu, yn ogystal â'r dewis i fynd i gyrsiau yn y gymuned. Rhagwelir y bydd nifer y swyddogion ac aelodau staff sydd heb unrhyw allu o ran y Gymraeg yn parhau i ostwng wrth i nifer y cyrsiau Cymraeg a drefnir gynyddu. Mae aelodau staff a swyddogion presennol sydd heb unrhyw allu o ran y Gymraeg yn cael eu cefnogi i gyrraedd lefel 1, a rhaid i bob gweithiwr newydd gyrraedd lefel 1 o fewn 6 mis. Gan hynny, yr ydym yn disgwyl gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y gweithwyr sydd ar lefel 0.

Yr ydym yn parhau i weithio gyda'r adran Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am weithwyr yn ddiweddar, ac rydym yn gofyn i swyddogion a staff

ddiweddaru eu gallu o ran y Gymraeg. Credwn y bydd nifer y gweithwyr sydd heb ddatgan eu gallu'n gostwng.

6. Cyrsiau Hyfforddi drwy Gyfrwng y Gymraeg

Fel heddlu, rydym yn ymdrechu i gyflwyno mwy o gyrsiau hyfforddi ar gyfer ein staff a'n swyddogion drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae pecyn cynefino'r heddlu ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyrsiau isod hefyd ar gael yn Gymraeg ar gais. Ein nod yw hyrwyddo'r cyrsiau sydd ar gael gennym drwy gyfrwng y Gymraeg yn ehangach fel bod mwy o bobl yn mynd i'r cyrsiau Cymraeg. Yn y dyfodol, gobeithiwn gynyddu nifer y cyrsiau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg fel bod modd i'n staff a'n swyddogion gwblhau cymaint o'u hyfforddiant ag sy'n bosibl yn Gymraeg os ydynt yn dymuno. Mae hyfforddiant yr heddlu ar gyfer recriwtio, cyfweld a llunio rhestr fer (Fframwaith Cymhwysedd a Gwerthoedd) wedi newid, ac mae'n cael ei gyfieithu fel ei fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Teitl y Cwrs	Nifer y staff / swyddogion a fynychodd y cwrs
Hyfforddiant ar gyfer Llunio Rhestr Fer adeg Recriwtio	0
Hyfforddiant ar gyfer Cyfweld adeg Recriwtio	0

7. Anfodlonrwydd

Isod, ceir cofnod o'r unig gŵyn a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Cwyn:

Ym mis Rhagfyr 2019, cysylltodd yr achwynydd â Heddlu Dyfed-Powys drwy'r llinell ffôn 101. Cynghorodd neges yn Saesneg yr achwynydd i wasgu 1 er mwyn siarad â rhywun yn Gymraeg. Gwasgodd yr achwynydd 1 a dywedodd neges awtomataidd arall wrtho yn Saesneg am wasgu'r botwm 9 i gadarnhau ei fod dal eisiau siarad

gyda rhywun yn Gymraeg. Yna, atebwyd ei alwad gan driniwr galwadau Saesneg ei iaith. Roedd yr achwynydd yn anhapus fod y negeseuon hyn yn Saesneg, ei fod wedi cael cais i gadarnhau ei fod eisiau siarad gyda rhywun yn Gymraeg, a bod y triniwr galwadau ddim yn siaradwr Cymraeg.

Datrysiad:

Yn gyntaf, diolchom i'r achwynydd am ddwyn y mater hwn i sylw'r heddlu. Esboniom fod y negeseuon awtomataidd ar y system alwadau 101 yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf, ac yna Saesneg. Hefyd, esboniom ein bod yn gwerthfawrogi bod y galwr yn cael ei holi am ei ddewis iaith ddwywaith, ac mae hyn yn rhywbeth a fydd yn newid gyda'r system deleffoni newydd sydd ar fin cael ei chyflwyno.

Esboniom fod 53% o'r trinwyr galwadau yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu'n siaradwyr Cymraeg ac yn medru ateb galwadau 101 drwy gyfrwng y Gymraeg, gan bwysleisio ei fod yn bwysig i weithlu Heddlu Dyfed-Powys gynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, a'n nod ni fel heddlu'n falch iawn o'n hunaniaeth Gymreig, ac eisiau annog swyddogion a staff i gefnogi'n holl breswylwyr. Credwn ei fod yn bwysig iawn i'n swyddogion a'n staff ddangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol yn y Gymraeg i'n preswylwyr ac i'w gilydd. Er mwyn sicrhau hyn, mae'r heddlu wedi ymrwymo i gael gweithlu lle mae pawb yn siarad Cymraeg hyd lefel 1 o leiaf.

Nodom y camau yr ydym yn eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg:

Proffiliau Rôl

- Diwygiwyd pob proffil rôl i nodi bod yn rhaid cyrraedd lefel 1 yn y Gymraeg o fewn 6 mis yn dilyn penodiad, ac mae'r gofyniad hwn yn hanfodol.

1. Recriwtio Allanol

- Sicrhau bod pob gohebiaeth a deunydd marchnata ar gyfer unrhyw ymgyrchoedd recriwtio allanol yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r gofyniad i gyrraedd lefel 1 o fewn 6 mis ar ôl ymuno.
- Ychwanegu pecyn hyfforddi Cymraeg fel gofyniad hanfodol o fewn y pecyn cyn-ymuno a anfonir at unigolion wrth dderbyn eu cyfarwyddiadau ymuno.
- Prawf Cymraeg adeg mynediad/cyfweliad os oes angen lefel uwch nag 1 yn y Gymraeg.

2. Recriwtio Mewnol

- Prawf Cymraeg adeg mynediad/cyfweliad os oes angen lefel uwch nag 1 yn y Gymraeg.
- Y rheolwr llinell newydd i wirio gallu yn y Gymraeg fel rhan o gwrs cynefino/dechreuwr newydd ar gyfer y rôl newydd.
- Y rhai sydd heb unrhyw allu yn y Gymraeg i ymgymryd â'r cwrs Lefel 1 o fewn amser penodol (terfyn amser ar gyfer ei gwblhau i'w gytuno/o fewn 6 mis ar ôl cychwyn y swydd newydd).

Sicrhaom yr achwynydd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau nad yw'r camgymeriad hwn yn digwydd eto.

Gwybodaeth Bellach

Os oes angen gwybodaeth bellach arnoch mewn perthynas â'r Adroddiad Iaith Blynyddol, anfonwch e-bost at yriaithgymraeg@dyfed-powys.pnn.police.uk